

CYNLLUNIO A GARDDWRIAETH



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Datblygiadau a Ganiateir

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd
Atodlen 2, Rhan 6 Adeiladau a Gweithrediadau Amaethyddol

UNEDAU SY'N FWY NA 5 HECTAR:

- Gwaith i godi, ymestyn neu addasu adeilad;
- Cloddio gweithrediadau peirianyddol yn rhesymol angenrheidiol at ddibenion amaethyddiaeth o fewn yr uned honno.

Atodlen 2, Rhan 4, Dosbarth B: Adeiladau a Defnyddiau Dros Dro - Defnyddio unrhyw dir at unrhyw ddiben am ddim mwy na 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr (Yn amodol ar gyfyngiadau Dosbarth B.1)

- Rhaid iddo fod ar y llain o dir sy'n ffurfio'r uned;
- Dim gwaith i annedd;
- Ni ddylai arwynebedd y tir fod yn fwy na 465 metr sgwâr
- Ni ddylai uchder fod yn fwy na 3mmedr os yw o fewn 3 cilomedr i'r erodrom ac nid 12medr mewn unrhyw achos arall;
- Ni ddylai fod o fewn 25medr i gefnffordd/ffordd ddosbarthiadol;
- Ni ddylai siediau da byw fod o fewn 400medr i adeilad gwarchoddedig;
- Nid yw'n ymwneud â gweithrediadau sy'n gysylltiedig â ffermio pysgod

PROSES GWNEUD CAIS

- Mae angen anfon Cais Hysbysu Ymlaen Llaw at yr ACLI lle mae'r prosiect yn cynnwys:
 - (a) codi, ymestyn neu addasu adeilad;
 - (b) Ffurio neu newid ffordd breifat;
 - (c) Cloddio neu waredu gwastraff;
 - (d) Gosod tanc mewn dŵr

GWYBODAETH ANGENRHEIDIOL

- Cwblhau Cais Hysbysu Ymlaen Llaw;
- Cynllun Lleoliad;
- Manylion am leoliad y cynnig;
- Disgrifiad o'r cynnig gan gynnwys: maint, uchder, dyluniad a gorffeniad;
- Ffi i'w thalu i LPA.

AMSERLEN PENDERFYNIAD

- Mae gan yr ACLI 28 diwrnod i wneud penderfyniad.
- Nid oes angen Caniatâd Ymlaen Llaw – 5 mlynedd i wneud gwaith;
- ACLI yn rhoi Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw – gall gynnwys amodau fel rhan o'r penderfyniad
- Lle mae Angen Cymeradwyaeth Ymlaen Llaw - rhaid dangos hysbysiad safle ar gyfer proses ymgynghori cyhoeddus
- Lle nad oes penderfyniad o fewn 28 diwrnod gall datblygiad fynd yn ei flaen ond lle nad yw datblygiad yn bodloni'r holl amodau yn y dosbarth PDR gellir cymryd camau gorfodi.



CYSYLLTWCH

Gwefan: <https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/land/horticulture-growing-growth>

E-bost: horticulture@lantra.co.uk



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio





Caniatâd Cynllunio Llawn

- Mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad gweithredol (adeiladau a strwythurau o fewn/ar/o dan dir a newidiadau materol yn y defnydd o dir (at y diben y gosodir y tir).
- Adeiladau a strwythurau gyda rhywfaint o barhad, o raddfa sy'n newid nodweddion ffisegol y tir, yn sefydlog i'r tir;
- Gwaith peirianeg;
- Gwaith a wneir fel arfer gan adeiladwr.
- Gwneud cais i'r Awdurdod Cynllunio Lleol.

Twneli polythen

Sut maen nhw wedi'u cysylltu â'r tir? Maint y strwythur? Defnyddiau a ddefnyddiwyd? Dylunio? Symudadwyedd? Effaith ar gymeriad tir?

Anedd Menter Wledig

- Ar gyfer gweithwyr menter wledig lle mae angen byw ar neu yn agos at safle'r fenter.
- Rhaid gallu dangos:
 - (i) Angen swyddogaethol – a oes angen swyddogaethol i'r gweithiwr fyw ar y safle at ddibenion amaethyddol/garddwriaethol?
 - (ii) Rhaid i'r angen ymwneud â gweithiwr llawn amser;
 - (iii) A yw'r fenter yn ariannol hyfyw (a sefydlwyd ers dros 3 blynedd gyda blwyddyn yn dangos elw);
 - (iv) A ellir bodloni'r angen o'r stoc tai presennol neu o adeiladau addas eraill sy'n bodoli eisoes

Ystyriaethau Cynllunio

Effaith ar y Dirwedd; Effeithiau a Gwelliannau ar Fioamrywiaeth ac ar Gynefinoedd; Rheoli Dŵr Wyneb (a dŵr budr); Isadeiledd Gwyrdd; Amwynder Preswyl; Dyluniad, ymddangosiad a gorffeniad; Defnydd o ynni adnewyddadwy; Rheoli Gwastraff; Perygl Llifogydd; Ardaloedd Dynodedig a lleoliad y cynnig; Lleoliad yr Asedau Treftadaeth mewn perthynas â'r cynnig; Hyfywedd...

Siop Fferm

- Lle bo'n atodol i arddwriaeth NID oes angen caniatâd cynllunio;
- Rhaid i'r rhan fwyaf o gynhyrchion ddod o'r daliad
- Lle bo angen caniatâd cynllunio, gellir rheoli % y cynhyrchion a werthir nad ydynt yn cael eu cynhyrchu ar y safle.

Caffi

Angen caniatâd cynllunio – cynnydd mewn ymwelwyr a thraffig, natur y fenter yn cael ei ystyried

Carafanau

- Angen caniatâd cynllunio i fyw ynddynt;
- Lle caiff ei ddefnyddio at ddiben garddwriaethol h.y swyddfa fferm bydd yn debygol o fod yn ddatblygiad a ganiateir.

Cynlluniau Ynni

Angen caniatâd cynllunio lle nad yw hawl datblygu a ganiateir o dan Ran 43 (Gosod Offer Microgynhyrchu Ynni Annomestig).

Trosi Adeilad Presennol

- Mae gan Lywodraeth Cymru "dull cadarnhaol o aildddefnyddio adeiladau gwledig at ddibenion busnes" (PPW, 2024)
- Mae p'un a yw natur a maint y defnydd arfaethedig newydd o adeilad yn dderbyniol mewn cynllunio yn dibynnu ar:
 - Effaith ar y dirwedd ac amwynder gweledol
 - Y dewis o ddeunyddiau (cydymdeimladol ac integreiddio â deunyddiau brodorol);
 - Ystyriaethau amgylcheddol;
 - Effaith economaidd;
 - Angen cymdeithasol a buddion.

Rhagor o wybodaeth

Tudalennau Cynllunio Llywodraeth Cymru. Ar gael ar-lein yn: <https://www.llyw.cymru/caniatad-cynllunio> [Cywir 22/04/2024].

Llywodraeth Cymru (Chwefror 2024) Polisi Cynllunio Cymru, Arg.12. Ar gael ar-lein yn: <https://www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru> [Cywir 22/04/2024].

Tudalen We Cynllunio Eich Awdurdod Cynllunio Lleol